Disgrifiad Swydd
Ebrill 2025

Teitl y Swydd	Cydlynydd prosiectau
Yn atebol i	Cyfarwyddwr
Cyflog	£28,500
Oriau Gwaith	37 awr yr wythnos
Cytundeb	Cytundeb blwyddyn, gyda'r bwriad o ymestyn yn ddibynnol ar gyllid
Lleoliad	Hyblyg

Mae'r swydd hon yn galw am unigolyn hyblyg, brwdfrydig a hyderus sydd yn gallu meistroli nifer o elfennau amrywiol sydd ynghlwm â gwaith Mentrau Iaith Cymru. Mae gweithio gyda phartneriaid, yn enwedig yn y maes dysgu Cymraeg, yn elfen greiddiol o'r gwaith.

Bydd gofyn gallu teithio i amryw o leoliadau ledled Cymru yn ôl y galw.

Amdanom ni

Mae Mentrau Iaith Cymru (MIC) wedi bod yn gweithredu fel corff canolog i gefnogi gwaith y rhwydwaith o Fentrau Iaith lleol ers 1999 trwy amryw o weithgareddau. Ein prif nod yw darparu cyfleoedd i rwydweithio, roi llais i'r rhwydwaith, datblygu prosiectau rhanbarthol a chenedlaethol sy'n caniatáu i'r rhwydwaith weithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol, a chynnig cefnogaeth ac arweiniad i'r Mentrau Iaith ar faterion amrywiol, gan gynnwys polisi mewnol, staffio, ymchwil a chyfleoedd datblygu yn y maes cynllunio iaith.

Rydym yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac yn chwarae rôl bwysig o fewn y 3ydd sector.

Prif Bwrpas y Swydd

Gweithio fel rhan o dîm bychan sy'n cefnogi gwaith y Mentrau Iaith ledled Cymru. Cydlynu cefnogaeth i'r rhwydwaith o Fentrau Iaith a chydlynu prosiectau sy'n ychwanegu gwerth i waith y Mentrau wrth iddynt gryfhau'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd y swydd yn canolbwyntio ar hwyluso ac ehangu ar y gwaith a wneir gan y rhwydwaith yn y maes 'cynyddu hyder a defnydd siaradwyr newydd'.

Prif Ddyletswyddau a chyfrifoldebau

- Cefnogi'r Mentrau iaith i ddatblygu a darparu cynlluniau lleol wedi eu targedau ar gyfer cynulleidfaoedd penodol
- Cynnal perthynas gadarnhaol gyda Chanolfan dysgu Cenedlaethol Cymru a'u darparwyr lleol
- Cynyddu cynhwysedd y Mentrau iaith i ddarparu gweithgareddau yn y maes cynyddu hyder a defnydd siaradwyr newydd
- Cefnogi'r Mentrau i ddatblygu partneriaethau yn y maes
- Rhannu arfer dda ar draws y rhwydwaith
- Rhoi cefnogaeth hyrwyddo a marchnata i weithgareddau'r rhwydwaith
- Cydlynu fframwaith werthuso cenedlaethol a chydlynu adroddiadau cenedlaethol
- Ymgymryd ag unrhyw dasgau a gofynion eraill rhesymol

Dyletswyddau a chyfrifoldebau cyffredinol:

- Cefnogi gwaith swyddogion eraill MIC i gyflawni gweithgareddau a phrosiectau amrywiol
- Paratoi adroddiadau rheolaidd ar y gwaith a gyflawnwyd er mwyn adrodd i Fwrdd Cyfarwyddwyr MIC, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru
- Mynychu digwyddiadau MIC
- Mynychu cyrsiau hyfforddiant a chyfarfodydd perthnasol
- Ymgymryd ag unrhyw dasgau a gofynion eraill rhesymol

Sgiliau / Profiad hanfodol

- Profiad o feithrin a chynnal partneriaethau a rhwydweithiau cydweithredol, ystyrlon a buddiol
- Yn drefnus ac effeithiol, ac yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol o safon uchel
- Y gallu i drefnu gwaith heb gyfarwyddyd uniongyrchol gan ddatblygu syniadau a chynlluniau newydd o dan arweiniad
- Y gallu i gydweithio ag eraill ac ennyn diddordeb a brwdfrydedd
- Sgiliau cyfrifiadurol da
- Profiad o gydlynu gweithgareddau
- Profiad o drefnu neu gydlynu cyfarfodydd
- Yn meddu ar drwydded yrru lân a chyfredol a defnydd o drafnidiaeth eich hunan
- Yn rhugl ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) - ar lafar ac ysgrifenedig
- Dealltwriaeth o waith MIC, y Mentrau Iaith a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, ac ymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg
- Gweithio mewn modd proffesiynol ar bob achlysur gan arddel egwyddorion Nolan

Sgiliau / profiad dymunol

- Profiad o weithio yn y maes cyfathrebu/ hyrwyddo
- Profiad o gasglu a chyflwyno data
- Profiad o ysgrifennu adroddiadau
- Profiad a dealltwriaeth o waith y trydydd sector yng Nghymru
- Dealltwriaeth o bolisi iaith a'r maes cynllunio iaith yng Nghymru
- Profiad o faes gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a' r ddarpariaeth dysgu lleol
- Dealltwriaeth neu brofiad yn y maes newid ymddygiad a/neu brosesau dysgu iaith.

Diwedd.